**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

# DYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3 - 4** |
| **Fframwaith Deddfwriaethol** | **5** |
| **Cydbwyllgor Ymgynghori (Cylch Gorchwyl/Aelodau/Ystyriaethau a Chanlyniadau)** | **5 - 12** |
| **Cyfarfodydd y tu allan i'r Cydbwyllgor Ymgynghori** | **13** |
| **Edrych i'r Dyfodol** | **13** |

## Rhagair



### Y Cynghorydd Maureen Webber BEM

### Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Eiddo'r Cyngor

A minnau'n Gadeirydd y Cydbwyllgor Ymgynghori ac yn Aelod o'r Cabinet ar faterion Cydberthnasau Cyflogeion ac Undebau Llafur yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf, rydw i'n falch o gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer 2024/25.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol i amlinellu ein cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

Yn rhan o'r ddyletswydd yma, mae'r Cyngor yn cael ei annog i fanylu ar unrhyw gamau a gymerir fel awdurdod lleol i sicrhau bod undebau llafur a chynrychiolwyr tebyg ar gyfer ein staff yn cael eu cynnwys yn briodol yn y trefniadau o ran pennu amcanion y Cyngor a gwneud penderfyniadau strategol.

Mae'r Ddeddf yma gan Lywodraeth Cymru yn dilyn yr egwyddor sylfaenol bod modd i gyflogwyr a gweithwyr gyflawni rhagor pan fyddwn ni'n mynd ati i weithio gyda'n gilydd, a hynny'n bennaf gyda chymorth undebau llafur.

Mae adain weithredol y Cyngor yn cytuno'n llwyr â'r cysyniad yma ac yn cydnabod gwerth y bartneriaeth dan sylw. Felly, drwy gydol 2024/25, a chyn hynny mewn gwirionedd, rydyn ni wedi ymgorffori egwyddorion partneriaeth gymdeithasol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel, ac wedi gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy ddulliau ymgysylltu strwythuredig a sgyrsiau agored gydag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Reolwyr y Cyngor.

Mewn ymateb i'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a'r cyfarwyddyd ychwanegol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fe wnaethon ni ailffurfio ein Cydbwyllgor Ymgynghori. Nod hyn yw rhoi lle ffurfiol parhaus i'n cydweithwyr o'r undebau llafur allu ymwneud â pholisïau strategol allweddol a thrafod materion pwysig gydag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion y Cyngor.

Cynhelir cyfarfodydd chwarterol hefyd rhyngof fi, Arweinydd y Cyngor, a chydweithwyr penodol o'r undebau llafur, gan roi cyfle cynnar i drafod cynigion polisi allweddol a sicrhau bod modd ystyried a chofnodi safbwyntiau a buddiannau aelodau'r undebau llafur cyn cytuno ar bolisi.

Mae'r cyfathrebu rheolaidd hwn yn ceisio ategu'r ddeialog barhaus sy'n digwydd rhwng uwch swyddogion ac undebau llafur yn rhan o weithgarwch dyddiol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ledled yr awdurdod lleol.

Mae cydberthnasau gwaith cryf wedi'u sefydlu gyda'r Cyfarwyddiaethau Addysg ac Adnoddau Dynol yn benodol, yn enwedig mewn perthynas â chynrychiolwyr o undebau ysgolion a gweithlu'r Cyngor. Er mwyn cyfleu'r pwysigrwydd y mae'r awdurdod lleol yma'n ei roi ar gynnal deialog gref gyda'n Partneriaid yn yr Undebau Llafur, mae Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor (Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu) yn parhau i fod yn gyswllt cyson rhwng Swyddogion Undebau Llafur, Aelodau Etholedig a'r Uwch Reolwyr i hwyluso cyfathrebu a chynrychiolaeth barhaus.

Caiff gwybodaeth i gefnogi ymwybyddiaeth cydweithwyr o faterion pwysig ei rhannu'n gyson, ac ar gais, er mwyn caniatáu trafodaethau gwybodus ac annog dealltwriaeth o benderfyniadau strategol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae undebau llafur wedi bod yn llais allweddol i'r gweithlu a'r gymuned ehangach, gan godi pryderon, taflu goleuni, a helpu i lywio penderfyniadau'r Cyngor. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth o ran cynnal statws Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig y Cyngor, adolygiadau helaeth i ddosbarthiad Prydau yn y Gymuned, cynigion o ran Gofal Preswyl a thrafodaethau ynghylch Cyllideb y Cyngor yn enghreifftiau allweddol o hyn. Mae hyn ar ben y cyfraniadau gwerthfawr a wnaed yn rhan o Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor.

Mae'r ymrwymiad y mae'r Cyngor a'n partneriaid yn yr undebau llafur yn ei rannu o ran tegwch, cyfiawnder cymdeithasol a gwella gwasanaethau cyhoeddus wedi bod wrth wraidd ein cydweithrediad. Llwyddodd hyn i sicrhau bod lleisiau'r gweithlu'n cael eu clywed ac yn chwarae rhan bwysig wrth wneud penderfyniadau.

Hoffwn ddiolch i'n cydweithwyr yn yr undebau llafur, ein gweithwyr, a'n partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus am eu cydweithrediad a'u hymroddiad parhaus. Drwy barhau i weithio mewn partneriaeth, byddwn ni'n adeiladu ar y sylfeini cryf yma i sicrhau bod Rhondda Cynon Taf yn parhau i fod yn lle teg, cefnogol a blaengar i weithio a byw ynddo.

**Y Cynghorydd M Webber**

**Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor ac Eiddo'r Cyngor**

## CYFLAWNI GOFYNION STATUDOL Y DDEDDF PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A CHAFFAEL CYHOEDDUS

Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith i wella lles pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus ar ffurf gwaith partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a dulliau caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Nod y Ddeddf yw ategu deddfwriaeth arall, gan gynnwys y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA 2015).

Wrth gyflawni gwaith datblygu cynaliadwy, mae Deddf 2023 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i geisio consensws neu gyfaddawd gyda'i undebau llafur cydnabyddedig wrth bennu ei amcanion o ran lles (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae Adran 16(2) o'r Ddeddf yn nodi nifer o ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw wrth geisio consensws neu gyfaddawd. Bwriad y gofynion yw sicrhau bod undebau llafur yn cael eu cynnwys mewn modd llawn a phriodol yn y broses pan fydd corff cyhoeddus yn pennu ei amcanion lles, neu wrth wneud penderfyniadau strategol.  Mae'n nodi: Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y trefniadau o ran pennu amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):-

(a) ymgynghori â nhw yng nghyfnod ffurfiannol y broses, a

(b) eu cynnwys mewn ffordd arall drwy gydol y broses drwy:

(i) darparu digon o wybodaeth i'w galluogi i ystyried yn briodol yr hyn a gynigir, a

(ii) darparu digon o amser i'w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn a gynigir ac ymateb.

## CYLCH GORCHWYL Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHORI

Er mwyn cyflawni'r gofynion statudol yma, penderfynodd y Cyngor ailgynnull ei Gydbwyllgor Ymgynghori yn 2023. Nod hyn oedd sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ymgysylltu â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur mewn perthynas â pholisïau allweddol, sut i lunio cyllideb gadarn a chytbwys a newidiadau allweddol i wasanaethau.

Rôl y Cydbwyllgor Ymgynghori yw cyflawni'r swyddogaethau canlynol ar ran y Cyngor:

(a) Bod yn gylch trafod sy'n rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ac undebau llafur rannu'u barn ar faterion sy'n effeithio ar weithwyr.

(b) Trafod materion penodol sy'n effeithio ar weithwyr ac sydd wedi'i gyfeirio at y Cydbwyllgor gan Aelodau'r Cyngor, yr undebau llafur a swyddogion.

Nod hyn yw ategu'r ddeialog barhaus rhwng Adnoddau Dynol, uwch swyddogion ac undebau llafur, yn rhan o weithgarwch darparu gwasanaethau dyddiol ym mhob rhan o'r awdurdod lleol.

## AELODAU'R CYDBWYLLGOR YMGYNGHORI

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol:** Maureen Webber BEM (Cadeirydd)

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol:** Andrew Morgan OBE

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol:** Ann Crimmings

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol:** Rhys Lewis

**Swyddogion yr Undebau Llafur**

Unison - Mr P Crews, M. Edwards

GMB - Mr C Jones, Mr G Morgans

Unite - Ms L Davies, Mr A McCarthy

**Undebau Llafur Addysg - Mynychwyr gwadd**

Mr M Thomas – NEU

Ms S Evans – ASCL

M Davies – UCAC

M Cleverly - NASUWT

Hoffai'r Cydbwyllgor ddiolch i'r cynrychiolwyr Undebau Llafur canlynol sydd bellach wedi ymddeol ac felly wedi gadael y Cydbwyllgor – Mr P Crews, Ms L Davies. Rydyn ni hefyd wedi cael gwybod na fydd Mr A McCarthy yn mynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor mwyach oherwydd newid yn ei swydd.

Serch hynny, dyma groesawu ein cynrychiolwyr newydd i'r Pwyllgor, M Edwards a M Gilroy. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gael eu mewnbwn gwerthfawr.

## CYFARFODYDD Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHORI

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Ymgynghori gyfarfod ddwywaith y flwyddyn, a chyda chaniatâd y Cadeirydd, gellir trefnu cyfarfodydd arbennig ychwanegol er mwyn trafod unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn ôl yr angen. Er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd a thryloywder y trafodaethau ymhellach, cynhelir cyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghori yn gyhoeddus ac mae recordiadau o'r cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae dolen i'r Cyfarfodydd a'r recordiadau i'w gweld yma.

Yn ystod y flwyddyn *galendr* ddiwethaf, fe wnaeth y Cydbwyllgor Ymgynghori gynnull i ystyried:

- Hunanasesiad Blynyddol Drafft 2022/23, gan gynnwys Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor
- Gweithio Gyda'n Cymunedau - Cynllun Corfforaethol y Cyngor
- Ymgynghori ar y Gyllideb - Cam 1 a 2
- Gofal Preswyl i Bobl Hŷn

I gefnogi'r meysydd yma, mae Uwch Reolwyr y Cyngor wedi ceisio sicrhau bod undebau llafur yn cael gwybodaeth briodol i lywio eu cyfranogiad mewn unrhyw brosesau ymgynghori ffurfiol, a hynny er mwyn eu galluogi i gynrychioli buddiannau eu haelodau yn effeithiol yn ystod y broses gwneud penderfyniadau.

**<u>TRAFODAETHAU A GYNHALIWYD GYDAG AELODAU O UNDEBAU LLAFUR MEWN PERTHYNAS Â'R EITEMAU AGENDA UCHOD</u>**

***Dydd Mercher 20 Rhagfyr 2023***

***<u>HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2022/23 GAN GYNNWYS ADRODDIAD CYFLAWNIAD CORFFORAETHOL Y CYNGOR</u>***

Darparodd y Rheolwr Cyflawniad a'r Prif Weithredwr Hunanasesiad y Cyngor ar gyfer 2022/23 i'r Cydbwyllgor Ymgynghori, cyn i'r Cyngor ei ystyried. Mae'r ddogfen yma'n nodi dyletswyddau i ymgynghori ar y graddau y mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion cyflawniad.

Cyfeiriodd Mr P Crews, (Unison) at y Setliad Llywodraeth Leol a sut y byddai hyn yn effeithio ar unrhyw strategaethau a blaenoriaethau a nodwyd. Rhoddodd y Prif Weithredwr adborth ar bwysigrwydd cyllid i gyflawni a llywio blaenoriaethau'r Cyngor yn y dyfodol.

**Canlyniad** – Roedd y Cydbwyllgor yn fodlon bod yr Hunanasesiad yn adlewyrchiad cywir a chadarn o sefyllfa’r Cyngor a’i wasanaethau

***<u>GWEITHIO GYDA'N CYMUNEDAU - DRAFFT O GYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR AR GYFER 2024-2030 (AT DDIBEN YMGYNGHORI)</u>***

Rhoddodd y Prif Weithredwr gyfle i'r Cydbwyllgor Ymgynghori gyfrannu at lunio Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor o 2024/25 i 2029/30.

Gofynnodd Mr P Crews, (Unison) sut y byddai'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei uchelgeisiau gan fyfyrio ar y cyhoeddiad diweddar ynghylch y Setliad Llywodraeth Leol, gyda chyfeiriad penodol at y toriadau i ardrethi busnes gwarchodedig.

Siaradodd Mr C Jones (GMB) am ddull gweithredu blaenllaw’r Cyngor sydd bob amser yn rhoi’r Cyngor ar flaen y gad, a chroesawodd yr uchelgeisiau yn y cynllun. Ailadroddodd Mr Jones bryderon ynghylch heriau ariannol a gwnaeth sylwadau ar bwysigrwydd cyfathrebu parhaus â staff ac ymgysylltu cynnar.

Gwnaeth Mr A McCarthy (Unite) sylwadau ar gefnogaeth a gwerth gofal cymdeithasol, a siaradodd am bwysigrwydd ymgysylltu â phartneriaethau cymdeithasol. Ceisiodd eglurder ynghylch pa wersi a ddysgwyd ynghylch ymgysylltu yn dilyn newidiadau diweddar i wasanaethau, a myfyriodd hefyd ar yr angen cynyddol am bartneriaethau cymdeithasol o

ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a'r effaith andwyol posibl ar amser cyfleusterau.

Gwnaeth aelodau'r Undebau Llafur sylwadau ar amseriad y cynigion i newid gwasanaethau a phwysigrwydd ymgysylltu mewn partneriaeth er budd pawb. Ymatebodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo'n llwyr i ymgysylltu'n agored ac adeiladol ag undebau llafur a nododd, yng nghyd-destun y rhagolygon ariannol heriol, y byddai'r Cyngor yn croesawu syniadau a chynigion ein cydweithwyr o'r Undebau Llafur o ran darparu gwasanaethau mwy effeithlon.

**Canlyniad** – Yn dilyn sylwadau mewn perthynas â'r Cynllun Drafft, cefnogodd y Cydbwyllgor gynllun Corfforaethol y Cyngor am ei fod yn cefnogi:

- Gweledigaeth a phwrpas clir i'r Cyngor.
- Blaenoriaethau/Amcanion Llesiant cywir ar gyfer y Cyngor, sef
    - Pobl a Chymunedau
    - Gwaith a Busnes
    - Byd Natur a'r Amgylchedd a
    - Diwylliant a Threftadaeth.
- Prif gamau gweithredu o fewn pob Amcan Lles a fydd yn sicrhau'r effaith fwyaf o ran cyflawni'r Weledigaeth newydd.
- Ymrwymiadau clir o ran trigolion, staff a phartneriaid

## *YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB 2024/25*

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyllid a Gwasanaethau Gwella, adroddiad i'r Aelodau a oedd yn gofyn am farn a sylwadau'r Cydbwyllgor Ymgynghori fel ymgynghorwyr i gam cyntaf yr Ymgynghoriad ar Gyllideb 2024-25 y Cyngor.

Clywodd yr Aelodau y byddai adborth y Cydbwyllgor yn cael ei ymgorffori mewn adroddiad Ymgynghori ar y Gyllideb, ochr yn ochr â'r holl adborth arall a dderbyniwyd gan randdeiliaid, i'w ystyried gan y Cabinet yn rhan o waith llunio'r Strategaeth Gyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2024/25.

Diolchodd Mr P Crews (Unison) i Gyfarwyddwr y Gwasanaeth am y cyflwyniad a'r manylion a gynhwyswyd ynddo. Codwyd ymholiad ynghylch cyllido Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gan y Cyngor a hefyd ymrwymiad ariannol parhaus y Cyngor i'w Gynllun Prentisiaeth.

Cyfeiriodd Mr C Jones (GMB) at lefel balans isafswm y gronfa wrth gefn gyffredinol o £10 miliwn, fel sydd wedi'i nodi gan swyddog Adran 151 y Cyngor, a gofynnodd am eglurder ynghylch barn Archwilio Cymru yn hyn o beth. Cyfeiriwyd hefyd at y balansau wrth gefn a glustnodwyd a pha mor aml maen nhw'n cael eu hadolygu.

Gwnaeth yr Aelod o'r Undeb Llafur sylwadau hefyd ar y cynnig ar gyfer lefel Treth y Cyngor, a chyfeiriodd at sylwadau Llywodraeth Cymru ynghylch awdurdodau lleol yn cadw Treth y Cyngor ar lefel isel a'r potensial o ran cyfyngu ar hyn. Ceisiodd eglurder ynghylch beth allai'r cyfyngiad yma fod, gan nodi y gallai lefel uwch o Dreth y Cyngor atal diswyddiadau a chynigion i newid gwasanaethau yn y dyfodol. Codwyd ymholiad pellach mewn perthynas â buddsoddi i arbed.

**Canlyniad** – Casglwyd adborth manwl y Pwyllgor a'i gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ar 22 Ionawr 2024 at ddiben bod yn rhan o drafodaeth y Cabinet i gytuno ar strategaeth gyllideb refeniw derfynol i'w hargymell i'r Cyngor.

***Dydd Llun 5 Chwefror 2024***

***YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2024/25 - CAM 2***

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Cyllid a Gwasanaethau Gwella, adroddiad i'r Aelodau a roddodd gyfle i'r Cydbwyllgor ymateb yn ffurfiol i ail gam yr Ymgynghoriad ar Gyllideb 2024-25 y Cyngor.

Gwnaeth Mr P Crews (Unison) sylwadau ar y gostyngiad yn y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan nodi'r angen i hysbysu Llywodraeth Cymru am yr effaith y byddai'r gostyngiad yn y cyllid yn ei chael ar y Cyngor. Yn ogystal, gofynnwyd am eglurder ynghylch y trefniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer y cynlluniau Graddedigion a Phrentisiaethau, gan gyfeirio at y ffaith bod meysydd gwasanaeth unigol yn cyflawni hyn. Holodd pa waith monitro fyddai ar waith i sicrhau llwyddiant a momentwm parhaus y cynlluniau hyn.

Croesawodd Mr C Jones (GMB) y diweddariad ynghylch y cynlluniau prentisiaeth a graddedigion ac aeth ymlaen i dynnu sylw at bryderon ynghylch y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd parcio ceir a'r caledi ariannol posibl y byddai hyn yn ei achosi i rai staff.

Manteisiodd Mr Jones ar y cyfle hefyd i nodi'r cynigion ar gyfer Canolfannau Oriau Dydd a siaradodd am bryderon ynghylch yr effaith ar y trigolion mwyaf agored i niwed yn y Fwrdeistref Sirol. Canolbwyntiodd Ms L Davies (Unite) ar y tâl arfaethedig am Brydau ar Glud, gan holi a oedd dirywiad wedi bod yn y gwasanaeth yn dilyn cyflwyno'r newid blaenorol.

Nododd Ms Davies pa mor agored i niwed yw defnyddwyr gwasanaethau a'r effaith ariannol a chymdeithasol y gallai'r cynnydd arfaethedig ei chael arnynt.

Gofynnodd Mr McCarthy (Unite) am ragor o wybodaeth ynghylch buddsoddiad y Cyngor i ddatblygu fferm solar a'r broses gynhyrchu a gwerthu ynni sy'n gysylltiedig â hynny.

Tynnodd aelodau'r undebau llafur sylw at bwysigrwydd cysylltiadau cyfathrebu da rhwng y Cyngor ac undebau llafur, a'r angen am gyfathrebu parhaus ar arbedion cyllidebol a'u dull gweithredu, os bydd y Cyngor yn cytuno arnyn nhw.

Gofynnodd Mr McCarthy gwestiwn i'r Pwyllgor ynghylch y driniaeth foesegol o lafur asiantaeth.

***Canlyniad** -*

- *Trafodaethau manwl a herio Strategaeth Gyllideb Refeniw ddrafft arfaethedig y Cabinet ar gyfer 2024/25 yn rhan o gam 2 o Ymgynghoriad ar Gyllideb 2024-25 y Cyngor.*
- *Yn gysylltiedig â'r drafodaeth ar y Gyllideb, ac yn dilyn ceisiadau yn y cyfarfod, darparwyd fersiynau dwyieithog o Lyfryn Treth y Cyngor i'r Aelodau.*
- *Manylion pellach am y Cyngor* Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd mewn perthynas ag ymholiad ynghylch 'Buddsoddiad y Cyngor i ddatblygu fferm solar a'r cynhyrchu a'r gwerthu ynni cysylltiedig'. https://rctcbc.moderngov.co.uk/documents/s45818/Report.pdf?LLL=0
- *Atgyfeiriad i Bwyllgor Craffu'r Cyngor – Adolygiad o Brydau ar Glud yn y Gymuned.*

***Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2024***

***YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2025-26 - CAM 1***

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, adroddiad a oedd yn rhoi cyfle i'r Cydbwyllgor Ymgynghori ymateb a chyfrannu at gam cyntaf yr Ymgynghoriad ar Gyllideb 2025/26 y Cyngor.

Rhoddodd yr Aelodau adborth ar gefnogaeth i'r rhagdybiaethau ariannu ar gyfer 2025/26 a nodwyd yn y cyflwyniad, a hefyd yr egwyddor o flaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael i ysgolion.

Adroddodd Craig Jones (CJ) (GMB) yn ôl ei fod yn cefnogi'r manylion a amlinellwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac y dylai'r Cyngor barhau i roi blaenoriaeth uchel i fuddsoddi mewn Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cytunodd yr Aelodau mai dull manwl o adolygu ffioedd a thaliadau oedd y ffordd orau ymlaen, gan nodi na fyddai dull cyffredinol yn ystyried y gofynion gwahanol ar gyfer yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor mewn modd digonol.

Nododd CJ bod angen pwyso a mesur yn fanwl wrth bennu ffioedd a lefelau taliadau, gan ystyried fforddiadwyedd i ddefnyddwyr gwasanaeth/cwsmeriaid, a nododd gefnogaeth i'r dull arfaethedig o bennu ffioedd a lefelau taliadau fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad.

Gwnaeth CJ sylwadau ar yr awgrymiadau a wnaed eisoes gan y cyhoedd, trwy arolygon y Cyngor, ar syniadau i arbed arian i helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y gyllideb.

Rhoddodd Mr Jones adborth ynghylch lle mae meysydd gwasanaeth eisoes wedi bod yn destun newidiadau, fel y Gwasanaethau Hamdden, gan nodi bod angen ystyried cynigion pellach yn ofalus; ni ddylai newidiadau arfaethedig effeithio'n andwyol ar y rhai mwyaf agored i niwed o fewn ein cymunedau a dylent sicrhau nad yw pobl yn cael eu hallgáu'n ddigidol; ac os bydd cynigion i godi mwy o arian am wasanaethau, mae angen ystyried yr effeithiau'n llawn.

Nododd CJ, pe bai cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn helpu i ddiogelu swyddi, y byddai GMB yn gefnogol, a nododd bwysigrwydd cynnydd yn Nhreth y Cyngor er mwyn peidio â rhoi baich ychwanegol ar y trigolion mwyaf agored i niwed yn y Fwrdeistref Sirol.

Nododd CJ bod angen dull gofalus o ran cyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach, gan nodi bod arbedion sylweddol eisoes wedi'u gwneud mewn blynyddoedd blaenorol ac nad oedd unrhyw arbedion pellach yn bosibl mewn rhai meysydd heb gael effaith andwyol ar ddarpariaeth y gwasanaethau.

Cytunodd CJ â dull y Cyngor o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn briodol ac yn gymesur i gefnogi cydbwyso'r gyllideb a cheisiodd eglurder ynghylch pa drefniadau craffu y mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn ddarostyngedig iddynt.

Cytunodd yr Aelodau fod y trefniadau presennol mewn perthynas â Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn briodol a dylid eu cadw.

Gwnaeth Michelle Edwards (Unison) sylwadau ar Amcanion Lles y Cyngor a chytunodd â'r datganiadau a ddarparwyd. Cefnogwyd hyn gan CJ.

Canlyniad - Casglwyd adborth manwl y Pwyllgor a'i gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ar 22 Ionawr 2025 i fod yn rhan o drafodaeth y Cabinet ac i gytuno ar strategaeth gyllideb refeniw derfynol y Cabinet i'w hargymell i'r Cyngor

## *CARTREFI GOFAL PRESWYL I BOBL HŶN – YMGYNGHORIAD*

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, drosolwg i'r Pwyllgor o'r adroddiad er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad y Cyngor ynghylch cartrefi gofal preswyl i bobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf, roedd hyn yn gysylltiedig ag amcanion y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr ymgysylltiad â'r undebau llafur o'r cychwyn cyntaf mewn perthynas â'r cynigion a rhoddodd sicrwydd y byddai ymgysylltiad o'r fath yn parhau drwy gydol y broses, gan adrodd yn ôl i'r Cabinet.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylwadau hefyd ar dderbyn dau ymateb ffurfiol gan yr undebau llafur, un gan GMB ac un fel ymateb ar y cyd, y tu allan i'r cyfarfod, a fyddai hefyd yn cael eu hystyried yn ymateb ffurfiol yr undebau llafur i'r ymgynghoriad, ond gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau pellach yn ddymunol.

- Mae'r ddau ymateb ffurfiol i'w gweld ar dudalennau 58 – 71, a thudalennau 74 – 76 o'r Adroddiad Ymgynghori - Adolygiad o Ofal Preswyl i Bobl Hŷn.

Cadarnhaodd Craig Jones, GMB fod yr undeb yn gwrthwynebu'r cynigion a gofynnodd am i'r cyflwyniadau ysgrifenedig gael eu hystyried yn ymatebion ffurfiol iddyn nhw. Gwnaeth Mr Jones sylwadau ar gynnig Cae Glas a'r cyfleoedd posibl y gallai'r cartref hwn eu cynnig i ardal Ffynnon Taf.

Codwyd pryderon ynghylch nifer y symudiadau y byddai'n rhaid i rai preswylwyr eu dioddef pe bai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch y costau.

Cyfeiriwyd at y 2 ddeiseb a oedd wedi dod i law mewn perthynas â'r cynigion a'r anfodlonrwydd lleol ynghylch y cynigion a'r siom a amlygwyd ynghylch y cynnig i gau Tŷ Ferndale cyn cwblhau'r datblygiadau gofal ychwanegol newydd yn yr ardal.

Gorffennodd Mr Jones drwy wneud sylwadau ar yr angen am welyau ychwanegol a'r gofynion dementia nawr ac yn y dyfodol.

Gwnaeth Michelle Edwards, Unison sylwadau ar y cynigion hefyd, gan adleisio sylwadau Mr Jones. Gwnaeth Ms Edwards sylwadau ar yr hyn a fyddai'n golled drist i ardal RhCT pe bai'r cynigion yn cael eu dwyn ymlaen, gyda gweithwyr lleol yn gofalu am drigolion lleol. Gwnaeth Ms Edwards sylwadau ar y rhwystredigaethau ychwanegol gyda'r cynnig oherwydd y ddealltwriaeth flaenorol y byddai Tŷ Ferndale yn aros ar agor nes bod y datblygiad newydd wedi'i gwblhau yn hytrach na symud trigolion yn ddiangen.

**Canlyniad**

- Byddai sylwadau ac adborth y cyfarfod yn cael eu cynnwys yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet i gynorthwyo gyda'i drafodaethau.
- Byddai'r llythyrau ffurfiol gan yr undebau llafur a gyflwynir i'r Prif Weithredwr hefyd yn rhan o ymateb yr undebau llafur i gynigion y Cabinet.

***Dydd Mercher 29 Ionawr 2025***

***YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2025/26 (CAM 1)***

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, yr adroddiad i'r Aelodau, gan roi gwybod am y cyfle i'r Cydbwyllgor ymateb yn ffurfiol i ail gam yr Ymgynghoriad ar Gyllideb 2025-26 y Cyngor.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn fodlon ar y cynnydd arfaethedig o 4.5% yn Nhreth y Cyngor. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau bod cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn darparu cyfleoedd i ddiogelu gwasanaethau'r Cyngor, a oedd yn cyfateb i'r posibilrwydd o achub swyddi o fewn y Cyngor.

Croesawodd yr Aelodau'r cynnydd arfaethedig i gyllidebau ysgolion ac roeddent yn teimlo'n sicr nad oedd disgwyl i ysgolion wneud unrhyw arbedion effeithlonrwydd. Cefnogodd un Aelod y cynnydd ond gwnaeth sylwadau ar yr effaith negyddol ganlyniadol o'r cynnydd ar wasanaethau eraill y Cyngor, gan fyfyrio unwaith eto ar y gwaith pwyso a mesur anodd sydd ei angen i osod cyllideb gytbwys.

Siaradodd yr Aelodau am yr anawsterau gyda'r dull parhaus o arbedion effeithlonrwydd, gan gwestiynu a oedd unrhyw effeithlonrwydd o'r fath yn gyraeddadwy. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i gefnogi effeithlonrwydd nad yw'n ymwneud â staffio a diswyddiadau anorfodol.

Cytunodd yr Aelodau mewn egwyddor â'r Ffioedd a'r Taliadau a'r rhesymeg dros y cynnydd arfaethedig, er iddynt sôn eto am yr anawsterau o fod angen cynhyrchu incwm, ond nid er anfantais i'r gwasanaeth a ddarperir, gan gyfeirio er enghraifft at ddarpariaeth Hamdden am Oes y Cyngor a'r potensial o wthio cwsmeriaid i gampfeydd preifat oherwydd cynnydd mewn ffioedd.

Gwnaeth un Aelod sylwadau ar y cynnydd mewn parcio ceir gan gyfeirio’n benodol at staff y Cyngor sy’n gweithio yn y swyddfa am 5 diwrnod yr wythnos a’r anghydraddoldeb gyda rhai staff yn elwa ar barcio am ddim tra bod eraill yn gorfod talu am barcio, a’r costau cynyddol y byddai rhai yn eu hwynebu nawr.

Roedd yr Aelodau'n fodlon defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn hytrach na bwrw ymlaen ag unrhyw gynigion i dorri swyddi.

Trafodwyd hefyd yr ad-daliad llywodraeth leol ar gostau Yswiriant Gwladol a thrafodwyd allanoli contractau glanhau Ysgolion, gyda'r Aelodau'n cwestiynu'r costau cysylltiedig ac yn holi a oedd y rhain yn cael eu hamsugno gan y Cyngor neu'r Ysgolion.

**Canlyniad** - Casglwyd adborth manwl y Pwyllgor a'i gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ar 22 Ionawr 2025 i fod yn rhan o drafodaeth y Cabinet ac i gytuno ar strategaeth gyllideb refeniw derfynol y Cabinet i'w hargymell i'r Cyngor

***MATER BRYS***

Manteisiodd Aelodau'r Pwyllgor ar y cyfle i gofnodi eu diolch i bwyllgor Cabinet y Cyngor mewn perthynas â'r penderfyniad diweddar ynghylch cartrefi gofal preswyl, gan gyfeirio at Dŷ Ferndale.

**CYFARFODYDD CHWARTEROL GYDA'R ARWEINYDD A DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR.**

Er mwyn cefnogi ymhellach ofynion statudol y Cyngor fel y'u nodir yn y Ddeddf, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Arweinyddiaeth Wleidyddol y Cyngor, uwch swyddogion a chynrychiolwyr Undebau Llafur yr Awdurdod Lleol.

Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn cael eu cynnull cyn cyflwyno'r Ddeddf na gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r cyfarfodydd hyn yn ceisio rhoi cyfle cynnar i bartneriaid undebau llafur lywio ystyriaethau o gynigion polisi allweddol a chynrychioli buddiannau posibl aelodau undebau llafur.

Roedd eitemau agenda ychwanegol a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd yn cynnwys y canlynol, ond nid oeddent yn gyfyngedig i hynny:

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor
- Gofal Preswyl i Bobl Hŷn
- Trefniadau Comisiynu'r Dyfodol ar gyfer Gofal yn y Cartref
- Trefniadau Comisiynu ar gyfer Gwasanaeth Byw â Chymorth i Bobl ag Anabledd Dysgu
- Cynigion o ran Ad-drefnu Ysgolion
- Adolygiad o Bolisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor
- Newidiadau i Gasglu Gwastraff

Mae cydweithwyr undebau llafur hefyd wedi defnyddio'r mecanweithiau sydd ar gael iddynt drwy Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor, i lywio ystyriaeth o Graffu a phenderfyniadau'r Cabinet ac wedi mynychu cyfarfodydd Cydbwyllgor Ymgynghori rheolaidd ar gyfer addysgu gydag Uwch Reolwyr - gan gynnwys y Prif Weithredwr.

## EDRYCH I'R DYFODOL

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl o fewn y Fwrdeistref Sirol ymhellach ac yn cydnabod mai elfen allweddol i'r cyflawniad hwn yw parhau i atgyfnerthu rôl gwaith partneriaeth gymdeithasol o fewn gwneud penderfyniadau strategol.

Rydyn ni'n aros am gyhoeddiad y canllawiau statudol ffurfiol mewn perthynas â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol i lywio cyfeiriad y berthynas waith gyda chydweithwyr Undebau Llafur yn y dyfodol.

Dros y flwyddyn nesaf a'r dyfodol, byddwn yn parhau i gynnwys cyflogwyr a gweithwyr mewn trafodaethau allweddol ynghylch gwelliannau i lesiant, gan ein bod yn cydnabod a gwerthfawrogi'r cyfraniad unigryw a'r arbenigedd a ddygir gan y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau cyhoeddus wrth fynd i'r afael â heriau cyffredin a cheisio atebion arloesol. Mae'n amlwg y bydd darpariaethau o'r fath yn cynorthwyo i hyrwyddo cydweithrediad ymhellach, cryfhau polisi a gwella canlyniadau, trwy ddeialog rhwng partneriaid cymdeithasol, a gyflawnir mewn partneriaeth gymdeithasol.

Yn y dyfodol byddwn yn ymgysylltu â'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur yn ein gwaith ar gyfer Asesiad Panel y Cyngor, wrth i ni geisio cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf

Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan ein bod unwaith eto'n gwerthfawrogi'r mewnwelediad a'r mewnbwn gan ein cydweithwyr.

Edrychwn ymlaen at ein trafodaethau addysgiadol a heriol gyda'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur drwy gyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghori ac yn ein cyfarfodydd chwarterol er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni hyn.

***